

CYFARFOD	<b>PWYLLGOR PENSIYNAU</b>
DYDDIAD	<b>21 TACHWEDD 2022</b>
TEITL	<b>Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd ('TCFD') - Ymgynghoriad 'TCFD'</b>
PWRPAS	<b>I gyflwyno'r ymateb gan Cronfa Bensiwn Gwynedd i'r ymgynghoriad</b>
ARGYMHELLIAD	<b>Cymeradwyo'r ymateb</b>
AWDUR	<b><u>Dafydd L. Edwards, Cyfarwyddwr y Gronfa</u></b>

## 1. Ymgynghoriad Llywodraeth y DU

Gydag effaith newid hinsawdd yn cael ei theimlo'n fwy difrifol ar draws y byd, ar y 1af o Fedi lansiodd Adran Lefelu i Fyny, Tai a Chymunedau ('DLUHC') Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar lywodraethu ac adrodd ar risgiau hinsawdd yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL).

Yn ôl y disgwyl, mae'r cynigion am ei wneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddol y CPLIL asesu, rheoli ac adrodd ar risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd, yn unol ag argymhellion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd ('TCFD'), a disgwylir i reoliadau ddod i rym erbyn Ebrill 2023.

Mae'r ymgynghoriad a'r cynigion yma'n berthnasol i holl gronfeydd CPLIL Cymru a Lloegr, ac fe'u nodir ymhen y ddolen ganlynol –

[Local Government Pension Scheme \(England and Wales\): Governance and reporting of climate change risks - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/publications/local-government-pension-scheme-england-and-wales-governance-and-reporting-of-climate-change-risks)

## 2. Ymateb i'r Ymgynghoriad

Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad i'w weld yn Atodiad 1. Mae hwn wedi ei baratoi gyda mewnbwn gan ymgynghorwyr y gronfa, Hymans Robertson.

## 3. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r ymateb.